# GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL AR GYFER BIOAMRYWIAETH

**Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Sir Gaerfyrddin yn cynnig grantiau o hyd at £1500 i gefnogi Gweithgareddau Cymunedol ar gyfer Bioamrywiaeth. Nod y grant yw helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac i gefnogi gweithgareddau cymunedol cysylltiedig.**

**I wneud cais am y grant hwn ac am gyngor a chymorth ynghylch eich syniad am brosiect, cysylltwch â mcollinson@sirgar.gov.uk**

**Cyflwyniad:**

Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gyda'r nod o greu a chefnogi prosiectau i adfer a gwella natur mewn cymunedau lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd uchel a'r rhai sydd heb lawer o fynediad at natur yng Nghymru, yn enwedig mewn amgylcheddau trefol ac o gwmpas trefi.

Ar draws Sir Gaerfyrddin, mae amrywiaeth o brosiectau'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir a'r Bartneriaeth Natur Leol, gan weithio gydag ystod eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion yn y gymuned i ddatblygu partneriaethau cryf a rhwydweithiau cynaliadwy ar gyfer adfer natur.

Efallai na fyddwn bob amser yn ei werthfawrogi, ond mae ein llesiant yn dibynnu ar iechyd yr amgylchedd naturiol. Os ydym am amddiffyn a'i adfer yn llwyddiannus, mae angen cynllun da arnom ac mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i'w gyflawni.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Sir Gaerfyrddin yma.

# GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL AR GYFER BIOAMRYWIAETH

## Amcanion y Grant:

**1/. 1/.** Gellir defnyddio'r grant hwn i ariannu gweithgareddau prosiect sy'n seiliedig ar natur, fel:

- darparu digwyddiad/gweithgaredd cyhoeddus a fydd yn gwella bioamrywiaeth ardal a/neu'n helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd ohoni.
- cyflwyno neu dderbyn sesiynau hyfforddiant cyhoeddus ynghylch materion bioamrywiaeth
- cydgysylltu gweithgareddau gwirfoddol rheolaidd sy'n seiliedig ar natur
- creu deunydd hyrwyddo a/neu weithgareddau artistig sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

Gallwch gyfuno gwahanol elfennau o'r math hwn o weithgaredd fel rhan o gynnig eich prosiect.

Gall y grant hwn dalu costau gweithgarwch y prosiect, ond nid oes modd ei ddefnyddio i brynu offer / seilwaith cyfalaf ac ati. Os oes eitemau o'r math hwn y byddai eu hangen arnoch, anfonwch e-bost at mcollinson@sirgar.gov.uk i gael rhagor o gyngor.

**2/.** Bydd angen i chi hefyd sicrhau bod pob buddiolwr o'r grant wedi cwblhau holiadur arolwg LPfN. Bydd hyn yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o ddiddordebau ac agweddau pobl leol, mewn perthynas â'u cymuned a'r amgylchedd naturiol a bydd yn cefnogi datblygiad prosiectau Mannau Lleol ar gyfer Natur yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.